**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Lesley Griffiths AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

Jayne Bryant AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd

22 Ebrill 2024

**A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Annwyl Lynne, Lesley, a Jayne,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wedi bod yn cynnal ymchwiliad eang ei gwmpas i weld a oes gan blant a phobl ifanc anabl a niwroamrywiol fynediad cyfartal at addysg a gofal plant. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn ystod yr ymchwiliad hwn gan weithwyr proffesiynol a phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi bod yn ddifrifol iawn, a chafwyd enghreifftiau niferus o hawl sylfaenol plant a phobl ifanc i addysg yn cael ei wrthod. Mae'r holl dystiolaeth rydym wedi'i chasglu ar gael ar-lein.

Daeth ein gwaith o gasglu tystiolaeth i ben ddiwedd y llynedd pan gynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyda'ch rhagflaenwyr, y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd; a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi ein hadroddiad i'w gyhoeddi cyn diwedd tymor yr haf, ac rydym yn ymwybodol y byddwn yn defnyddio tystiolaeth eich rhagflaenwyr.

Roeddem felly am roi cyfle i chi roi unrhyw wybodaeth ychwanegol y credwch y byddai'n ddefnyddiol i ni ei chael wrth baratoi'n hadroddiad a'n casgliadau. Efallai y byddwch yn teimlo nad oes angen i chi ddiweddaru'r dystiolaeth. Os felly, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau hynny.

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn flaenorol ar gael ar ein tudalen we; ynghyd â'r trawsgrifiad o'r sesiwn tystiolaeth lafar.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 22 Mai.

I gloi, edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd yn fy rôl newydd fel Cadeirydd y Pwyllgor. Rwy'n bwriadu adeiladu ar y gwaith rhagorol rydym wedi'i wneud ers 2021 o dan ein Cadeirydd blaenorol, Jayne; gwaith rwy'n falch o fod wedi bod yn rhan ohono o'r dechrau.

Yn gywir

Buffy Williams AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.